

# Blodau ein Dôl Drefol

AMGUEDDFA  
CYMRU

023

Mae nifer o wahanol blanhigion ar ein Dôl Drefol yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Dyma bum planhigyn sy'n blodeuo'n gyson ar y ddôl dros yr haf. Gallwch chi eu gweld nhw mewn gerddi, wrth ochr y ffordd ac mewn cloddiau hefyd. Planhigion cynhenid yw'r rhain i gyd, sy'n golygu eu bod nhw wedi cyrraedd yma ymhell yn ôl heb help pobl. Cadwch lygad amdanyn nhw, ond peidiwch â'u casglu er mwyn i beillwyr fedru ymweld. Rhanwch eich canfyddiadau gyda ni ar Twitter @CardiffCurator.

Am ragor o ganllawiau natur, neu i gysylltu ag un o'n gwyddonwyr amgueddfa am help i adnabod sbesimen ewch i: [amgueddfa.cymru/casgliadau/ar-eich-stepen-drws/adnabod-natur/taflen-sylwi/](http://amgueddfa.cymru/casgliadau/ar-eich-stepen-drws/adnabod-natur/taflen-sylwi/)



Nature  
on your  
doorstep



**Milddail**  
*Achillea millefolium*

Mae'r planhigyn yn tyfu hyd at 80cm, gyda dail wedi rhannu'n fân. 'Millefolium' yw mil o ddail yn Lladin. Blodau gwyn i binc i'w gweld rhwng Mai a Gorffennaf. Gall un planhigyn gynhyrchu hyd at 6,000 o hadau, ac mae nifer o beillwyr yn ymweld. Tyfu mewn ardaloedd sych, dolydd a glaswelltir.



**Y Bengaled**  
*Centaurea nigra*

Planhigyn talsyth wedi'u orchuddio â blew mân sy'n tyfu i daldra o 1m. Blodau coch i bincborffor yn tyfu'n unigol, pob un wedi'i amgylchynu â bractau bach fel dail yn gorgyffwrdd. Blodeuo rhwng Mehefin a Medi. Tyfu mewn dolydd, tir pori a glaswelltir.



**Ytbysen y Ddôl**  
*Lathyrus pratensis*

Mae tendriliau yn helpu'r planhigyn i ddringo dros blanhigion eraill fel bod y blodau, sydd fel pys melyn llachar, uwchlaw'r deiliach. Blodeuo rhwng Mai ac Awst. Coesynnau moel, pedrongl, yn tyfu hyd at 1.2m. Tyfu mewn mannau glaswelltog, tir garw a dolydd.



**Clafrllys y Maes**  
*Knautia arvensis*

Planhigyn talsyth, blewog sy'n tyfu hyd at 1m, yn aml mewn sypiau. Blodau lelog i las wedi'u trefnu yn bennau blodau gwastad sy'n edrych ychydig fel pincws. Blodeuo rhwng Gorffennaf a Hydref. Tyfu mewn coetir, cloddiau, dolydd, ac ar fin y ffordd.



**Eurinllys Trydwl**  
*Hypericum perforatum*

Planhigyn gyda choesyn talsyth yn tyfu hyd at 80cm, gyda dwy grib. Blodau melyn gyda chwarennau du i'w gweld rhwng Mehefin a Gorffennaf. Dail gyda dotiau neu chwarennau bach tryloyw – y dotiau tryloyw hyn yw'r 'tyllau' yn yr enw. Tyfu mewn glaswelltir, dolydd, cloddiau a choetir agored.